

Protest! Brwydro dros syniadau gwerth chweil



Nodiadau'r athrawon

Dyluniwyd y pecyn hwn er mwyn ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r animeiddiad Protest! Brwydro dros syniadau gwerth chweil! Ei nod yw cael ei ddefnyddio gan ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed, gyda'r gweithgareddau'n cael eu hwyluso gan athro.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y taflenni gwaith canlynol:

- **Merched yn gweithio**
- **Swffragetiaid**
- **Adolygu ffilmiau**
- **Ymrymuso**
- **Bwrdd straeon**
- **Bathodynau**
- **Hysbyslenni**
- **Cael dweud eich dweud**

Mae hefyd tri baner arddangos gyda'r pecyn:

- **Y Mudiad Swffragetiaid**
- **Gwaith menywod yn ystod y Rhyfel Mawr**
- **Protest! Brwydro dros syniadau gwerth chweil**

Erbyn diwedd y sesiwn bydd y disgyblion yn deall:

- Yn ystod y Rhyfel Mawr (1914 - 1918) gwnaeth menywod y gwaith oedd dynion yn ei wneud yn wreiddiol, ond ar gyflog is na nhw. Ar ôl y rhyfel, roedd rhaid i'r swyddi fynd yn ôl i'r dynion oedd yn dod yn ôl ar ôl ymladd ar y rheng flaen.
- Y mudiad swffragetiaid oedd y frwydr i fenywod gael yr hawl i bleidleisio yn y senedd. Dechreuodd cyn y Rhyfel Mawr, ond daeth i stop yn ystod y rhyfel fel bod menywod yn gallu helpu'r achos. Cafodd rhai menywod y bleidlais yn 1918.
- Ni ddaeth brwydr menywod am yr hawl i bleidleisio i ben pan gafodd rai ohonynt y bleidlais. Roedd menywod yn dal i ymladd dros eu hawliau, fel mae pobl yn ei wneud heddiw, yn brwydro dros rywbeth yr oeddent yn teimlo'n gryf amdano.
- Yn teimlo fel y gallent sefyll dros yr hyn yr oeddent yn ei gredu.

Rhyfel Byd Cyntaf

Merched yn gweithio



Chwaraewyd rôl bwysig gan ferched yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Tra bod y dynion i ffwrdd yn ymladd, bu'n rhaid i'r merched wneud eu gwaith nhw.

Allwch chi baru'r gwrthrychau â'r ferch gywir?



Nyrs ydw i.
Rwy'n gofalu am filwyr
sydd wedi'u hanafu.



llysiau



tocyn
bws



Rwy'n gwnïo a
gwau i'r ymdrech ryfel, gan
helpu i wneud dillad i
ddynion ar y rheng
flaen.



hosan



bwled



stethosgop



Swyddog
bysus ydw i. Rwy'n
rhoi tocynnau
bws i bobl.



Gweithiwr ffatri ydw i.
Rwy'n gweithio mewn ffatri
arfau, yn gwneud arfau
i filwyr.



Merch y tir ydw i.
Rwy'n helpu i dyfu llysiau
gan fod bwyd yn brin.

Protest!



BRWYDRO DROS SYNIADAU
GWERTH CHWEIL

Swffragetiaid

Yn y 1900au cynnar bu
swffragetiaid yn ymgyrchu dros
hawliau pleidleisio i fenywod.

Roeddent yn defnyddio'r lliwiau
fioled, gwyn a gwyrdd fel
symbolau o'u credoau.

Lliwiwch sash a rhosglwm
y swffragetiaid.

Allwch chi weld beth mae
pob lliw yn ei symboleiddio?

Fioled = urddas
Gwyn = purdeb
Gwyrdd = gobaith



Protest!


Brwydro dros syniadau gwerth chweil

Adolygu ffilmiau

Pwy oedd yn gorymdeithio
ar ddechrau'r ffilm?

Dros beth oedden nhw'n
ymladd?

Beth yw prif themâu'r ffilm?



Allwch chi ddweud wrthyn ni am
adeg yn y ffilm sy'n sefyll allan i chi?
A pham?

Sut wnaeth y ffilm i chi deimlo?

Pe gallech chi wneud ffilm
am y brotest, am beth
fyddech chi'n gwneud y
ffilm?

Museum of
Cardiff

Amgueddfa
Caerdydd

Protest!

Brwydro dros syniadau gwerth chweil

Ymrymuso

Beth ydych chi'n **falch** ohono?

Beth yw eich **nodau**?

Beth sy'n
gwneud chi'n
hapus?

Tynnwch lun
o'ch hunan yma:

Enw.....

Beth sy'n
gwneud chi'n
drist?

Beth fydddech chi'n **newid yn**
y byd ?

Am beth ydych
chi'n **poeni**?

Protest!

Brwydro dros syniadau gwerth chweil


Museum of
Cardiff

Amgueddfa
Caerdydd

Bwrdd straeon

Beth sy'n bwysig i chi?

Llenwch y bwrdd straeon i ddangos
sut fydddech chi'n protestio dros
yr achos.



Protest!




BRWYDRO DROS SYNIADAU GWERTH CHWEIL

Bathodynau

Mae gwisgo bathodyn yn ffordd o ddangos yr hyn rydych yn credu ynddo i bobl rydych yn cwrdd â nhw.

Yn aml maent yn cynnwys symbol sy'n cynrychioli achos.

Dyluniwch fathodyn ar gyfer rhywbeth rydych chi'n credu ynddo.



Pa symbol byddwch chi'n ei gynnwys?

Museum of
Cardiff

Amgueddfa
Caerdydd

Protest!

BRWYDRO DROS SYNIADAU GWERTH CHWEIL



Hysbyslenni

Defnyddir hysbyslenni
i gyfleu neges. Yn aml
maent yn cael eu gwneud
gartref a'u dal i fyny'n uchel
ar orymdeithiau protestio.

Lluniwch eich hysbyslen eich hun.
Sut byddwch yn sicrhau
bod pobl yn sylwi ar eich neges?



Protest!

Brwydro dros syniadau gwerth chweil

Cael dweud eich dweud

Yn y project hwn rydych wedi dysgu -

- o am y Mudiad Swffragetiaid a sut gwnaeth menywod frwydro dros eu hawl i bleidleisio.
- o am rôl newidiol menywod yn ystod y Rhyfel Mawr a'r gwaith a wnaethon nhw tra roedd y dynion yn ymladd.
- o rhoddodd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl hawl i rai menywod i bleidleisio.

Rydych wedi meddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi ac am yr hyn yr hoffech chi newid ac am y ffyrdd y gallwch chi brotestio.

Beth yw'r camau nesaf?

Rhestrwch rai o'r pethau y gallwch chi ei wneud yn eich bywyd bob dydd i sefyll dros yr hyn yr ydych yn ei gredu:

